THE TITHE MAPS OF WALES
CYNEFIN
Mapiau Degwm Cymru

## PROSIECT CYNEFIN

Mae mapiau degwm yn ffynhonnell rhagorol ar gyfer ymchwilio i hanes pobl a lleoedd. Ceir dros fil o fapiau ar gyfer dros 95% o dir Cymru, a rhoddant ddarlun gwerthfawr o'r wlad yn yr 1840au gan mai rhain yw'r cofnod mwyaf manwl sydd ar gael o'u cyfnod. Mae rhestrau cysylltiedig yn enwi pawb oedd yn talu'r degwm.

Dechreuodd prosiect Cynefin ar y gwaith o atgyweirio a digido'r mapiau yma yn 2014. Fel rhan o'r prosiect fe drawsgrifiwyd dros 27,000 tudalen o'r rhestrau gan wirfoddolwyr, a'u cysylltu â'r lleoliadau perthnasol ar y mapiau. Cynhaliwyd y prosiect gan bartneriaeth o dan arweiniad Cyngor Archifau Cymru gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru a hefyd Casgliad y Werin. Daeth y rhan fwyaf o'r nawdd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru drwy MALD, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Archifau Cymru.

Mae'r mapiau rhyngweithiol hyn ar gael arlein ar **cynefin.cymru** ac hefyd wedi eu darparu ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru **lleoedd.llyfrgell.cymru** a Chasgliad y Werin **www.casgliadywerin.cymru**



## SUT I GYRRAEDD DWYGYFYLCHI

**MEWN CAR:** Lleolir Dwygyfylchi ger yr A55. Os ydych yn teithio i gyfeiriad y gorllewin dylech ymadael ger cyffordd 16a. Os ydych yn teithio i gyfeiriad y dwyrain ar yr A55 dylech ymadael ger cyffordd 16 ac yna cymryd y troad cyntaf ar y chwith. Nid oes maes parcio yn y pentref felly gofynnir yn garedig i chi fod yn ystyriol o eraill wrth barcio os gwelwch yn dda.

Os hoffech ymweld â Phenmaenmawr dylech ymadael â'r A55 ger cyffordd 16 a dilyn yr arwyddion i Benmaenmawr. Mae maes parcio mawr ger y llyfrgell y tu ôl i siop Spar, ger y groesffordd.

**AR FWS:** Mae gwybodaeth am wasanaethau bws lleol ar gael gan TravelineCymru (0300 200 22 33) **www.traveline.cymru**

Conwy — Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy County Borough Council

Archifau Cymru Archives Wales

Lottery Funded — Heritage Lottery Fund / Cronfa Dreftadaeth

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

THE TITHE MAPS OF WALES
CYNEFIN
Mapiau Degwm Cymru

# CERDDED Dwygyfylchi



## DWYGYFYLCHI: HANES BRAS

Tua'r flwyddyn 1840, teithiodd y Parchedig Emilius Nicholson drwy Ddwygyfylchi. Meddai: "The road is continued by a slow descent into a rich plain, chequered with cornfields and meadows which continue along the margin of the sea. This little plain called Dwyg-y-fylchi, is situated in a recess of the mountain screened from every harsh wind and open to the w. sun, it is characterised by a most luxuriant fertility. One year in particular, its crop of barley was reaped, and some portion of it ground, on the 10th July".



Cynaeafu gwair

Cymuned amaethyddol, wledig, cymharol ynysig oedd Dwygyfylchi yn y cyfnod cyn adeiladu ffyrdd megis yr A5, yn gartref i ffermydd a thyddynnod gwasgaredig yn unig. Roedd y ddau benrhyn – Penmaen Bach a Phenmaen Mawr – yn rwystrau i deithwyr, yn eu gorfodi i deithio ar hyd y tywod pan oedd y llanw ar drai, neu wynebu dringfa serth dros y bryniau. Yn sgil uno Prydain ac Iwerddon yn 1800 cynyddodd y galw am wella ffyrdd drwy ogledd Cymru ar ôl i Gaergybi gael ei dewis fel porthladd ar gyfer hwylio i Ddulyn. Yn ystod y 1820au dechreuodd Thomas Telford weithio ar yr A5 o'r Amwythig i Gaergybi trwy Fangor, ac roedd y gwaith yn cynnwys adeiladu ffordd newydd trwy osod ffrwydron o amgylch ymyl clogwyn isaf Penmaen Bach.

Nid amaethyddiaeth oedd unig ffynhonnell cyflogaeth y plwyf. Am flynyddoedd cariwyd cerrig o'r traeth i wynebu strydoedd yn nhrefi Sir Gaer a Sir Gaerhirfryn a oedd yn prysur dyfu. Gwelodd y dynion lleol eu cyfle ac aethant ati i siapio blociau bras o sgri o lethrau Penmaen Mawr a'r Graiglwyd, a'u gwerthu i gapteiniaid llongau masnachol nad oeddynt yn dymuno dychwelyd i Lannau Merswy yn wag. Sylwodd dau ddyn busnes blaengar o Runcorn ar werth y cynnyrch a daethant i archwilio ffynhonnell y garreg. Yn 1835, dechreuwyd ar y gwaith o gloddio'r graig ar lethrau Penmaen Mawr, a chludwyd y cynnyrch trwm ar y môr yn hytrach nag ar y ffyrdd. Cyn hir, dechreuodd eraill chwarela yn y Graiglwyd. Roedd angen dynion i weithio yn y chwarel ac roedd angen llety arnynt hwy a'u teuluoedd. O ganlyniad, datblygodd anheddiad newydd islaw'r chwareli ym Mhenmaenan, yn cynnwys terasau o fythynnod, siopau, capeli ac ysgol.



Chwarelwyr lleol, 1880

Yn 1847, ychydig o effaith gafodd dyfodiad y rheilffordd ar economi'r plwyf, oherwydd parhaodd y chwarel i ddibynnu ar y môr er mwyn cludo'r cerrig, ac roedd plwyf Dwygyfylchi yn eithaf hunangynhaliol; dim ond rhai eitemau a fewnforwyd i wneud bywyd yn fwy cysurus, megis glo a rhai nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu. Agorwyd yr orsaf reilffordd yn 1849 ac fe'i henwyd yn Penmaenmawr, ar ôl y bryn enwog, oherwydd tybid fod yr enw Dwygyfylchi yn rhy anodd i ymwelwyr ei ynganu. Roedd y rheilffordd yn fodd i gysylltu'n gynt ac yn rhatach â gweddill Prydain, yn ogystal â sefydlu diwydiant twristiaeth yma ac mewn rhannau eraill o ogledd Cymru ar raddfa llawer mwy na'r hyn a welwyd yn flaenorol; o ganlyniad daeth cyrchfan glan-môr Penmaenmawr i fodolaeth. Tyfodd y dref yn gyflym hyd at y 1890au, pan oedd y gyrchfan newydd ar ei hanterth.



Gorsaf Penmaenmawr

Roedd llawer o'r cynnydd hwn yn ardal Dwygyfylchi a Phenmaenmawr yn ddyledus i fentrau'r teulu Darbishire a ddaeth i'r ardal oherwydd y rheilffordd; roedd Samuel Duckinfield Darbishire yn gyfreithiwr i Gwmni Rheilffordd Caer a Chaergybi, a phrynodd Ystâd Pendyffryn yn yr 1850au. Rhoddodd y teulu lawer yn ôl i'r plwyf oedd bellach yn gartref iddynt, yn arbennig ym maes addysg. Aethant ati yn gyntaf i addasu'r hen ysgubor degwm ar dir yr eglwys yn Nwygyfylchi yn ysgol ac yn ddiweddarach, adeiladwyd Ysgol Glan y Rafon yn 1862 gyda chymorth y Gymdeithas Ysgolion Brutanaidd.

# Lleoedd o ddiddordeb yn Nwygyfylchi


**Eglwys Sant Gwynan**
Cafodd y strwythur presennol ei adeiladu yn 1889 gan ddisodli adeilad hirsgwar syml o 1760. Cyn hynny, roedd yna eglwys ar ffurf croes ar y safle ond ni wyddom pa mor bell yn ôl roedd yn dyddio.

**Ffordd Hen Felin – Ffordd Ysgubor Wen**
Y llwybr a ddefnynddiwyd gan deithwyr i gyrraedd hen drac Sychnant pan oedd y llanw i mewn!

**Ffordd Glanrafon**
Llwybr sy'n arwain at lan y môr ger Penmaen-bach. Câi'r ffordd ei defnyddio pan oedd teithwyr yn cael eu 'dal gan y llanw' ac yn methu parhau â'u taith ar hyd y tywod, sef y brif ffordd gydnabyddedig tan 1772.

**Neuadd Pendyffryn**
Cartref y teulu Smith ar ddiwedd y 18fed ganrif. Yn ddiweddarach, daeth yn gartref i deulu Darbishire a ddatblygodd y chwareli ym Mhenmaenmawr.

**Ffyrdd Sychnant**
Agorwyd y ffordd bresennol yn 1772 fel rhan o'r ffordd dyrpeg o Lanrwst i Fangor. Y peiriannydd oedd Sylvester; ef oedd hefyd yn gyfrifol am wella'r llwybr o amgylch Penmaenmawr.




**Hen Felin** – Yn weithredol tan tua 1860 fel melin flawd. Parhaodd pobl i fyw yn y bwthyn oedd yn gysylltiedig â hi tan yr 1940au.

**Y Glyn**
Adeiladwyd yn yr 1840au gan W. C. Harris, tad Robert Harris (1849–1919), yr artist portreadau enwog o Ganada.

**Y giât** uwchben White House oedd un o giatiau'r tollbyrth ar ffordd arfordirol Telford – yr hen A55. Mae'r cynllun yn nodweddiadol o'i waith a chredir ei fod wedi ei seilio ar giât Conwy yn y Waen.

Datblygodd y pentref ar ôl 1772 i wasanaethu anghenion teithwyr ar y ffordd oedd, bryd hynny, yn newydd. Pan agorwyd ffordd yr arfordir yn 1825/6 dirywiodd y pentref, ond yna cafodd ei adfywio gan dwristiaeth yn yr 1870au.

**Afon Gyrach**
Y gred ar un adeg oedd fod yr enw yn deillio o 'gwrach' – ond mae'n fwy tebygol bod yr enw yn tarddu o 'curragh' sef y Gwyddeleg am 'gors'!

**Tai o'r 18fed a'r 19eg ganrif**
**Rhai adfeilion/wedi ailddatblygu/ adeiladau newydd ar y safle**

Cymdeithas Hanes Penmaenmawr

DJR. 93